## CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR EBRILL 4ydd, 2023

## Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Maldwyn Lewis (cadeirydd) Cyng. Ceri Jones
Cyng. Sharon Thomas Cyng. Emyr Jones
Cyng. Mark Davies Cyng. Teifi Evans
Cyng. Roger Davies

Croesawyd Hazel Lloyd Lubran o CAVO.

Clerc Rhian Jones

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1 . Ymddiheuriadau | Cyng. Sian Williams, Cyng. Carol Davies, Cyng. Rob Jones ynghŷd a'r Cyng. Llŷr Evans. | | |
| 2. Cyflwyniad gan Brifweithredwraig CAVO | Mae Hazel Lloyd yn Brifweithredwraig i CAVO ac maae eu Prif swyddfa yn Llambed. Mae 7 ar y tîm yma yng Ngheredigion ond maent yn cyd-weithio'n agos iawn gyda eraill mewn siroedd cyfagos yng Nghymru.<br>Mae'r gwaith yn amrywio'n ddyddiol, o helpu llywodraethau a chymunedau i reoli staff yn ogystal a chynorthwyo nifer o glybiau i ail ddrechrau ar ôl Covid. Cafwyd llawer o gyfarfodydd ar lein yn ystod yr amser hyn i hyrwyddo beth oedd yn ddiogel iddynt wneud o dan yr amgylchiadau.<br>Buddsoddwyd yn y teclyn 'OWL', er mwyn i bawb fedru ymuno mewn cyfarfodydd, boed yn bresennol neu o bell. Camera ydyw gydag ongl sy'n galluogi pigo pawb i fyny yn yr ystafell, ac mae croeso i ni fel Cyngor Cymuned ei fenthyg ar gyfer ambell gyfarfod – ond bydd angen Wi-fi yn y neuaddau er mwyn galluogi iddo weithio. Mae'r system eisioes yn Neuadd Llechryd ac mae'n gweithio'n arbennig o dda. Byddai budd iddo yn ystod y Gaeaf pan fod y tywydd yn wael er mwyn galluogi cyfarfodydd i barhau.<br>Mae CAVO yn canolbwyntio ar helpu cymunedau, unigolion a sefydlu grwpiau newydd. Gallant hefyd gynorthwyo gyda phroblemau mewn adeiladau penodol.<br>Maent yn aelod o fwrdd (PSB) Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac mae'r cynllun llês yn bwysig iddynt.<br>Mae'r Bwrdd Rhanbarthol yn cynorthwyo i geisio gwella adnoddau Iechyd y Sir trwy gefnogi a chyfrannu.<br>Rhan o'u gwaith hefyd yw cefnogi grwpiau i fynd am Grantiau, ac un o'u blaenoriaethau ar hyn o bryd yw annog cymunedau i gymryd Cyrsiau Cymorth Cyntaf.<br><br>Ceisiant gefnogi Croeso Cynnes yn ein cymunedau. Nodwyd fod Neuadd Coedybryn yn cynnal Clwb Cinio llwyddiannus yn fisol ar y Dydd Iau olaf, ac mae yna £1,000 ar gael i gefnogi gyda chostau trydan a gweithgareddau er mwyn parhau gyda'r fath glybiau. ( Mae ffurflen gais syml ar gael i geisio am y Grantiau o'r math). | | |

Nodwyd hefyd fod yna Gaffi Cymunedol yn Neuadd Rhydlewis fore Sadwrn, a Gwirfoddolwyr sy'n cynnal rhain yn ein pentrefi.

Mae nifer o baneli grantiau ar gael ac ym mis Mai mae cronfa Dr Dewi Davies yn cynnig grantiau rhwng £500-£5,000 tuag at gynorthwyo addysg Iechyd, CffI a phobl ifanc. ( Elusennau lleol)
Ar Fai 10fed mae modd gweld y broses o beth maent yn chwilio amdano pan yn ceisio am y grant yma. Nodwyd fod Cyngor y Gymuned yn gyswllt pwysig iawn i drosglwyddo'r negesd at Ieuenctid yr ardal – a gwybod pwy allai elwa ohonynt. Maent hefyd yn cefnogi gwirfoddolwyr gyda gwobrau ac mae croeso i enwebu unigolion er mwyn iddynt dderbyn y clôd.

Holodd os oedd rhywbeth yn codi –

- Gyda'r cyfarfodydd Hybrid (OWL) byddai rhaid cael Wi-fi yn y neuaddau a byddai cost i'r Wi-fi yn fisol.
- Mae sôn fod Penlan 'Woody's Lodge' – dechrau 'allotments' er mwyn cyd-weithio gyda'r gymuned. ( nododd fod yna ddigon o grantiau ar gael ar gyfer dechrau allotments.)
- Mae Clwb Garddio llwyddiannus eisioes yn Rhydlewis a byddai cysylltu'r allotments gyda banciau bwyd yn syniad.
- Gyda cheir trydan yn dod yn fwy poblogaidd a fyddai modd cael pwyntiau gwefru trydan tu allan i'r Neuaddau ond mae'n debyg fod gan y Sir bolisi mewn lle eisioes.

Maent yn cefnogi cymunedau gyda gweithredu cynlluniau argyfyngidau e.e llifogydd. ( mae gwell syniad gan y gymuned pwy sydd angen help.)
Yn ystod Covid dechreuwyd 90 newydd yn Sir Benfro, 150 yn Sir Gâr ac ond 1 yn unig yng Ngheredigion sef yn Aberteifi. Dadansoddodd fod hyn yn argoeli'n dda ar gyfer y Sir oherwydd fod y grwpiau wedi eu sefydlu eisioes – neges bositif i Geredigion ein bod yn edrych ar ôl ein cymunedau.

Diolchodd y Cyng.Maldwyn Lewis i Hazel Lloyd am ddod i siarad heno.

3. Datgan Diddordeb — DIM

4, Cofnodon y Cyfarfod diwethaf, — Roedd pob Cynghorydd wedi derbyn copi o gofnodion Mis Mawrth a chynigiodd y Cyng.Teifi Evans fod y cofnodion yn gywir ac eiliodd y Cyng.Ceri Jones.

5. Materion yn Codi — DIM

6. Materion y Cyngorydd Sir. — Mae y Cyng.Ceri Jones eisioes wedi casglu'r potiau blodau, compost a'r cerrig. Roedd angen aros tan y cyfarfod i drafod lleoliad y potiau yn y pentrefi oherwydd unwaith byddant yn eu lle ni fydd modd newid

eu lleoliad. Mae angen i bawb edrych yn y pentrefi am leoliadau addas a thynnu lluniau i'w gosod ar 'What's App' y Cyngor er mwyn i'r Cynghorwyr Ceri Jones a Rob Jones eu gosod.
Nododd Y Cyng.Maldwyn Lewis fod Gwasanaeth Casglu Sbwriel wedi newid yr wythnos hon o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn. Mae'r wybodaeth eisioes ar wêfan y Cyngor ac ar Facebook.

Cynhaliodd Gwasanaeth Cerdd Ceredigion gyngerdd llwyddiannus iawn yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth ar Fawrth 28ain.

Cynhaliwyd cyrsiau gan y Gwasanaeth Addysg yn hyrwyddo am Autism. Mynychodd y Cyng.Maldwyn Lewis gwrs diddorol iawn yng Ngholeg Llambed. Roedd ganddynt fws Autism yn dangos y problemau mae rhieni yn wynebu a sut maent yn delio gyda gwahanol sefyllfaoedd.

Yn y dyfodol agos bydd ffioedd cartrefi gofal yn codi tua 8% oherwydd y costau tannwydd a chyflogau staff.

Mae yna gyfle i'r cyhoedd i leisio barn am newid cyflymder pentrefi o 30mya i 20mya. Gellir lleio barn trwy ffonio 01545 570811. Y farn oedd y byddai'n achosi mwy o broblemau – ond yn iawn mewn mannau priodol fel tu allan i ysgoilion a chartrefi'r hennoed.

7. Gohebiaeth. Derbyniwyd llythyr wrth Mags (cyn-glerc) am y gystadleuaeth Pencampwriaeth Aredig yn Llanon ar Fedi'r 9fed yn holi am gymorth ariannol ar gyfer y digwyddiad. Caiff hyn ei drafod yng Nghyfarfod mis Mai.

Derbyniwyd llythyr gan McMillan yn holi am gymorth ariannol a diolchodd y Cyng.Roger Davies iddynt am yr holl gymorth mae eisioes wedi dderbyn – nid oedd wedi sylweddoli cymaint maent yn gynnig. Hwn eto i'w drafod yng Nghyfarfod mis Mai.

Derbyniwyd gwahaoddiad i Ganolfan Lloyd Thomas yn Llambed ar Ebrill 26ain i wrando ar Gomisiynydd Heddlu a throseddau Heddlu Dyfed Powys - Dafydd Llywelyn yn siarad. Mae angen i'r Clerc e-bostio Anwen Davies PCSO i nodi pryd mae ein cyfarfod cymuned nesaf.

8. Cynllunio. DIM

9. Cyllid. Cytunodd pawb oedd yn bresennol i dalu'r anfonebau ac arwyddwyd y sieciau gan Y Cyng.Sharon Thomas a'r Cyng.Emyr Jones.

| | |
|---|---|
| HMRC - £43.60 | 001700 |
| Cyflog y Clerc mis 12 - £173.60 | 001699 |
| Cware Crug yr Eryr - £42.00 | 001702 |
| Costau Clerc, Postio, Anti-Virus ayyb - £59.16 | 001701 |

10. Materion Ardal

PENRHIWPAL –

* Nodwyd fod y De-fib yn ddiffygiol. Mae'r Cyng.Maldwyn Lewis mewn cysylltiad gyda Calonnau Cymru i brofi'r De-fib ac mewn trafodaeth i'w anfon yn ôl atynt. Yn y cyfamser defnyddir y floating de-fib y y bocs ym Mhenrhiwpal.
Derbyniwyd pris am focsys newydd sef £550 yn ogystal a chostau Postio.

Mae'r Cyng.Mark Davies wedi caael pris am De-fib's newydd sef £399 am un syml a lled awtomatig.
Nodwyd fod angen i'r bocsys newydd yma fod yn weladwy – lliw melyn os yn bosibl. Hefyd mewn byd-delfrydol byddai angen cael trydan yn y bocsys gan fod y gwresogydd ond ar gyfer y pads ac nid y De-fibs.
Nodwyd hefyd fod y bocs presennol sydd ger Siop Ffostrasol yn rhy fawr i'r safle ac angen ei newid am un fwy twt.
Cynigiodd y Cyng.Mark Davies ein bod yn archebu 3 bocs newydd wrth Galonnau Cymru ac eiliwyd gan y Cyng.Roger Davies. Cytunodd pawb oedd yn bresennol. Mae angen anfon bocs Penrhiwpal yn ôl gan ei fod yn gymharol newydd.

BRONGEST –
- Mae'r Cyngor Sir wedi bod yn clirio y gwteri sy'n arwain lawr i'r pentref.

FFOSTRASOL –
- Mae angen gwydr newydd ar y bocs hysbysebu.
- Mae'r tyllau yn y ffordd wedi eu llenwi dros dro.
- Ger troeon Brynhelyg ar y ffordd rhwng Ffostrasol a Phenrhiwpal mae bumper car wedi bod yno ers sawl blwyddyn ac mae'n edrych yn aniben.
- Wrth gerdded rhwng Ffostrasol a Blwchygroes sylwyd fod llawer o sbwriel wedi cael ei daflu ochr arall y clawdd yn cynnwys canniau a charpedi. Mae angen cysylltu gyda CLIC am hyn.

COEDYBRYN –
- Mae angen tô sinc newydd ar yr arhosfan bws gan ei fod wedi rhydu. Mae angen holi am brisiau wrth tua 2-3 person gwahanol.

11.Cyfarfod nesaf. Bydd y cyfarfod nesaf yn neuadd bentref Rhydlewis ar Fai 2il am 7:30 yh.

AGENDA
- Bocsys blodau
- De-fibs
- Cyfraniad Pencampwriaeth Aredig
- Cyfraniad McMillan

12 AGM/Cinio Bydd yr AGM ar Fai 2il yn Neuadd Bentref Rhydlewis am 7:30 yh. Bydd y Cinio Blynyddol ar Fai 9fed. Cynigiodd y Cyng.Maldwyn Lewis i'w gynnal yn LaCalabria ac eiliwyd gan y Cyng.Teifi Evans. Os na fydd y lleoliad hwn ar gael penderfynwyd mynd i Gwarcefel ym Mhrengwyn.

Gan nod oedd dim arall i'w drafod tynnodd y Cadeiridd y cyfarfod at ei derfyn am 9:30yh